# Adroddiad Ymgysylltu Llais Gorllewin Cymru

## Gorffennaf ac Awst 2023

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care





# Llais Gorllewin Cymru

## Yr hyn rydym yn ei wneud

Rydym yma i sicrhau bod eich barn a'ch profiadau yn cael eu clywed a'u defnyddio gan y bobl sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaid i leisiau cryf pobl Cymru fod wrth wraidd system iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol a chydgysylltiedig i Gymru

Rydym yn credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, maen nhw eu hangen mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

# Croeso i'r ail adroddiad ymgysylltu ar gyfer Llais Gorllewin Cymru.



Mae staff Llais yn parhau i gael cyfarfodydd rhagarweiniol gydag Aelodau'r Senedd, gan godi ymwybyddiaeth unwaith eto o Llais a gwrando ar eu pryderon a'r hyn y maent yn ei glywed gan eu hetholwyr am iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ymgynghoriad ar wasanaethau pediatrig brys aciwt Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mynychodd gwirfoddolwyr a staff Llais nifer o ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar wasanaethau pediatrig brys acíwt.

Mae'r ymgynghoriad yn rhannu'r tri opsiwn ar gyfer sut y gallai gofal brys plant a phobl ifanc yn ysbytai Llwynhelyg a Glangwili gael ei ddarparu yn y dyfodol. Ni ddaeth llawer o aelodau'r cyhoedd i'r digwyddiadau hyn.

**Rhai o'r pethau rydyn ni'n eu clywed.**

Nid yw'r adran damweiniau ac achosion brys yng Nglangwili yn gyfeillgar i blant.

Mae cael mwy o wasanaethau nôl yn Sir Benfro yn grêt .

Mae'n bwysig bod y meddygon teulu yn gwybod ble i'ch anfon mewn argyfwng.

## Bydd Llais Gorllewin Cymru yn rhannu ein hymateb drwy ein gwefan. [https://www.llaiswales.org](https://www.llaiswales.org)

### Ymgysylltu â'r cyhoedd

Rydym wedi mynychu Carnifal y Borth, Diwrnod Hwyl i'r Teulu Aberaeron a Sioe Sir Benfro i glywed gan y cyhoedd am eu Gwasanaethau GIG a Gofal Cymdeithasol

Dyma beth ddywedodd rhai pobl wrthym.

Disgwyl hir am ddeintyddiaeth weiren dannedd

Mae'r nyrsys yn gweithio'n galed ym Mronglais ond mae llawer o swyddi nyrsio gwag sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y staff.

Arosiadau hir mewn damweiniau ac achosion brys yn ddiweddar yn ysbyty Bronglais.  Mynd at feddyg teulu gyda phoenau bol ac anfonodd ni i A&E heb archwilio fy merch.

Mae gan fy mam ddementia ac mae wedi byw ei bywyd cyfan yn Aberystwyth ond mae hi wedi cael ei chludo i ffwrdd o'r sir i gartref nyrsio sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r teulu ymweld ag ef.

Methu gwneud apwyntiad meddyg teulu ymlaen llaw , ymgynghoriad gwych yn Llambed



## Cartrefi gofal

Mae staff wedi bod yn ymweld â rhai cartrefi gofal yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn cyflwyno eu hunain i reolwyr y cartrefi gofal ac yn siarad am Llais.

## Rydym newydd gwblhau ein harolwg mamolaeth

Mae gennym ddiddordeb mewn gwasanaethau mamolaeth ers i'r Bwrdd Iechyd wneud newidiadau i wasanaethau menywod a phlant yn 2013. Fe wnaeth ein cyn-sefydliad Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda (CICHD) nifer o ymweliadau â lleoliadau mamolaeth ac er bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol i raddau helaeth, mae'r adroddiadau wedi dweud nad yw profiadau bob amser yn dda.  Y llynedd fe wnaeth pobl ddweud wrthym sut brofiad oedd rhoi genedigaeth yn ysbytai Hywel Dda. Fe wnaethom adrodd yn ôl i'r Bwrdd Iechyd, Ac Fe wnaethon nhw ddweud y byddent yn gwneud gwelliannau ar sail yr hyn rydych chi wedi ei ddweud.

Nawr rydym yn gofyn eto am enedigaethau ers mis Tachwedd 2022**.**



Dyma'r hyn yr ydym wedi'i glywed am wasanaethau mamolaeth.

Roedd yn anhygoel, roedd pawb a oedd yn gofalu amdanaf i mor dda aeth popeth mor dda. Roedd pawb a phopeth yng Nglangwili yn anhygoel, gallai fy meddygfa wneud yn well serch hynny. Ar wahân i hynny, rwy'n hapus

Roedd y gefnogaeth a'r arweiniad gan y bydwragedd yn rhagorol.

Gwych. Roedd y pwll geni yn MLU Llwynhelyg yn allweddol wrth wneud yr enedigaeth yn dawel a dymunol. Roedd y bydwragedd yn wych.
Y cyflymder yr oedd ei angen arnom i adael yr MLU. Byddai wedi bod yn llawer mwy dymunol a defnyddiol i i allu cael diwrnod i adfer a bondio, yn hytrach na 6 awr a gallu aros o gwmpas gofal iechyd am sicrwydd.

Gofal ardderchog gan fydwragedd
Gofal cymysg iawn gan ymgynghorwyr; Rhoddodd un gyngor ardderchog, rhoddodd un arall gyngor yn ymylu ar for yn esgeulus, gan fynnu bod gen i haint cyn 40 wythnos am ddim rheswm da o gwbl. Cytunodd yr ail ymgynghorydd, wythnos yn ddiweddarach bod hyn yn gyngor gwael.

**Bydd adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi a'i rannu gyda'r cyhoedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.**

**Dod yn wirfoddolwr Llais!**

Oes gennych chi ddiddordeb mewn iechyd a gofal cymdeithasol?

Hoffech chi wirfoddoli rhywfaint o'ch amser i wrando ar eraill?

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn wirfoddolwr i ni neu os hoffech i aelod o dîm Llais Gorllewin Cymru ddod i siarad â'ch grŵp neu gymuned, cysylltwch â ni ar:

## westwalesenquiries@llaiscymru.org

## Ffôn 01646 697610

**Gyda'n gilydd gallwn wella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**



## Beth sydd i ddod?

Mae tîm Ymgysylltu Llais Gorllewin Cymru wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiadau lle gallwn fynd allan i gwrdd â phobl i glywed eu barn am iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gobeithio y bydd ein gwirfoddolwyr gwych yn gallu ymuno â ni er mwyn ymgysylltu â'n cymunedau.

## Cyfle gwych

Rydym wedi cael ein gwahodd yn garedig iawn i ddigwyddiad gofalwyr sy'n cael ei gynnal yng Nghydweli ym mis Medi a byddwn yn siarad â dros 100 o ofalwyr. Bydd yn rhoi cyfle gwych i ni ddweud wrthyn nhw am y gwaith rydyn ni'n ei wneud ac i wrando a dal eu profiadau (da a drwg!) am wasanaethau'r GIG a Gofal Cymdeithasol.

# Dilynwch ni ar:

Facebook: @llaisWalesTwitter: @llaiswales